# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 16 Hydref 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Dealltwriaeth Gyhoeddus o Bwysigrwydd y Cynulliad Cenedlaethol

**C13 Nick Bourne:** Pa gamau y bydd gweinyddiaeth Prif Weinidog Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y cyhoedd yn deall pwysigrwydd y Cynulliad Cenedlaethol i'w bywydau pob dydd? (OAQ12904)

**Prif Weinidog Cymru:** Y ffordd orau o argyhoeddi'r cyhoedd am bwysigrwydd y Cynulliad yw sicrhau bod ein polisïau a'n gwaith ar eu rhan yn berthnasol a llwyddiannus. Dyna union fwriad fy adroddiad blynyddol a'r rhaglen fusnes flynyddol; mae'r ddau yn cael eu cyhoeddi heddiw ac maent yn disgrifio rhaglen arloesol ac unigryw.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ12920) yn ôl.*

### Dyfodol Railtrack

**C15 Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU am ddyfodol Railtrack? (OAQ12923)

**Prif Weinidog Cymru:** Siaredais am y pwnc hwn â Stephen Byers, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, yn yr adran honno, ychydig cyn i Railtrack gael ei dynnu yn ôl i reolaeth y Llywodraeth. Rhoddais fraslun o sut y gallai'r cwmni a ddaw yn sgil Railtrack, na fydd am wneud elw, weithio fel Glas Cymru. Mae Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd wedi ysgrifennu at Mr Byers gan fanylu ar gefndir sefydlu Glas Cymru.